**Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal EOC 08-02(p9)**

| | |
|---|---|
| **Dyuddiad:** | 12 Rhagfyr 2002 |
| **Amser:** | 9.00am |
| **Lleoliad:** | Committee Rooms 3 and 4 |
| **Teitl:** | **Cynnydd Adroddiad Codi Pob Llais** |

**Rhagarweiniad**

Canlyniad cytundeb partneriaeth rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Undeb Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol yw Codi Pob Llais (CPLl). Cyflwynais yr adroddiad i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar 21 Mawrth 2001.

Bwriad y nodyn byr hwn yw cynnig fy marn i ar lwyddiant y broses o roi CPLl ar waith hyd yn hyn. Seiliwyd fy marn ar y dystiolaeth a welwyd yn y papurau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn ei gyfarfodydd ym mis Tachwedd a Rhagfyr.

**Y cynnydd hyd yn hyn**

Mae'n debyg bod 18 o'r 43 o argymhellion CPLl wedi eu cwblhau. Mae'r gwaith o roi 23 argymhelliad pellach ar waith ar fin cael ei gwblhau tra bod 2 arall yn ymwneud â'r broses archwilio.

Mae gan y Cynulliad lawer i ymfalchïo o ran y ffordd y mae staff wedi mynd ati i weithredu'r 18 argymhelliad a wnaed hyd yn hyn. Rhaid rhoi’r gydnabyddiaeth am hyn i’r ymrwymiad gwleidyddol y mae'r Cynulliad wedi ei ddangos tuag at y broses, ac arweiniad yr Ysgrifennydd Parhaol ar lefel swyddogol. Er bod cwblhau'r argymhellion yn eu tro yn garreg filltir, mae'n rhaid edrych arnynt fel cyfrwng ar gyfer newid yn hytrach na darparu ateb. Rhaid edrych arnynt hefyd fel rhan o becyn cynhwysfawr.

Yr oedd nifer o argymhellion eraill yn ymwneud â staffio, swyddogaeth, statws a rôl yr Uned Polisi Cydraddoldeb. Unwaith eto gwnaed llawer o waith er mwyn gweithredu'r argymhellion hyn gan gynnwys penodi Pennaeth newydd i'r Uned yn ddiweddar. Y mae gennyf rai o'r un pryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 14 Tachwedd 2002. Soniaf yn fanylach am y pwyntiau hyn ar lafar yn y Pwyllgor ond teimlaf fod rhai agweddau o'r broses megis defnyddio CV a phrofion seicometrig yn peri pryder a bod rhai o’r agweddau yn ddiangen. Yn wir, deallaf fod canolfannau asesu wedi cael eu defnyddio ar gyfer rhai prosesau dewis a dethol o fewn y Cynulliad. Nid wyf yn hollol siwr beth yw

pwrpas y canolfannau hyn ond byddwn yn pryderu petai profion seicometrig yn cael eu defnyddio.

Yr oedd hyfforddi pob aelod o staff ac Aelodau wrth wraidd strategaeth gyffredinol CPLl. Yr wyf yn falch iawn o'r cynnydd a wnaed wrth hyfforddi staff ac Aelodau. Hoffwn nodi fan hyn bod rhaid i'r hyfforddiant hwn, yr un peth â gweddill y gwaith o roi'r CPLl ar waith, fod mor agos i'r dyletswyddau a welir yn Neddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 â phosib.

Un o brif faterion CPLl sy'n weddill yw'r gystadleuaeth agored ar gyfer pob swydd. Dyma'r mater mwyaf dadleuol allan o'r 43 argymhelliad a dweud y lleiaf. Yr wyf yn edrych ymlaen at ddod i ryw fath o gytundeb gyda'r undebau er mwyn medru rhoi'r argymhelliad hwn ar waith cyn gynted â phosibl. Mae’n werth ail ddatgan yr egwyddor arweiniol sydd y tu ôl i'r argymhelliad. Er mwyn sicrhau'r newid sylfaenol i'r ffordd y mae'r Cynulliad yn edrych ac yn ymddwyn mae'n rhaid edrych ar ffyrdd o ddenu talent newydd ac amrywiol i'r sefydliad. Yn fy marn i byddai cymysgu'r system yn creu sefydliad ag iddo ddwy haenen gyda'r staff gwyn eu croen ar yr haenen uchaf a staff du eu croen ar y gwaelod. Dyma'r rheswm dros gynnig cystadleuaeth agored ar gyfer pob swydd gyda’u gofynion y swyddi’n cael eu haddasu.

**Yr argraff gyffredinol**

Ar y cyfan credaf ein bod wedi cael cryn lwyddiant wrth weithredu CPLl. Wrth gwrs fe fydd yna rhai sy'n credu nad ydym wedi gweithredu'n ddigon cyflym tra bod eraill o'r farn ein bod wedi cyflawni digon. O ystyried y cyfeiriad a osodwyd yn CPLl a bod Aelodau'r Cynulliad a'r Ysgrifennydd Parhaol wedi ymrwymo ato, bydd rhaid seilio’r farn derfynol ar y targedau a gyflawnir a'r hyder sydd gan y gymuned leol mewn perthynas â'r Cynulliad a'i waith o ran cydraddoldeb hiliol. Amser a ddengys.